Flintshire Music Service offer lessons for a price. See the above link.

Following aural tests, training is offered to those who are likely to benefit and to receive support at home. Training is arranged at the school. A fee is payable for the lessons in accordance with the school's policy.

Every child in school is given an opportunity to have amazing musical experiences through music lessons, which include singing, composition and instrumental work.

Prominence has been given to vocal work and choral singing and the pupils are encouraged to compete in Eisteddfodau and perform in school concerts.

Flintshire Music
Service



Polisi derbyn

Derbynnir plant i'r Dosbarth Meithrin yn y flwyddyn ysgol y byddant yn bedair oed. Cynigir pump sesiwn bore yr wythnos 9:00 i 11:30 y.b.

A pump sesiwn prynhawn 12:30 i 3:00yh, pob dydd.

Cyn i'r plant ddechrau, gwahoddir y rhieni i'r ysgol yn ystod tymor yr haf i dderbyn gwybodaeth, i weld yr Uned, cyfarfod aelodau'r staff a thrafod y trefniadau ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd.

Mae disgyblion ein blynyddoedd cynnar Meithrin , Derbyn a Blwyddyn 1 yn gweithio gyda'i gilydd yn unol â gofynion y Dysgu Sylfaen. Mae'r pwyslais yn y Dysgu Sylfaen ar ddysgu trwy brofiad uniongyrchol ac ar gynnig amrywiaeth gyfoethog o brofiadau perthnasol i'r disgyblion.

Caiff cynnydd pob plentyn ei fonitro'n ofalus.

Admissions policy

Pupils are admitted to the Nursery in the school year they attain their fourth birthday. Five morning sessions a week 9:00-11:30am. And five afternoon sessions per week 12:30-3:00pm, daily.

In the summer term before the Nursery children start, parents are invited to obtain information, to see the unit and to meet the members of staff and to discuss the arrangements for the coming year.

Our Nursery, Reception and Year 1 work together in the early years in accordance to the requirements of the Foundation Learning. The emphasis in the Foundation Learning is placed upon learning through experience and offering the pupils innovative experiences which are relevant to their needs. Each child's progress is carefully monitored.



Defnydd o'r Gymraeg

Y Gymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu yn Ysgol Glanrafon a disgwylir i bob plentyn fod yn gwbl ddwyieithog erbyn y bydd ef/hi yn gadael yr ysgol. Ymfalchiwn wrth i'r disgyblion ddangos parch at yr iaith Gymraeg a dangos balchder yn eu hetifeddiaeth Gymreig. Mae'r ysgol wedi ennill statws Aur y Siarter Iaith.

The use of the Welsh language

Welsh is the main medium of education at Ysgol Glanrafon – each child is expected to be bilingual by the time he/she leaves the school. We are proud of the fact that the pupils show pride in the Welsh language and the Welsh heritage. School has attained the gold status of the Language Charter.

Physical Education

SCHOOL'S AIMS FOR GAMES

There is an emphasis in this school to encourage pupils to maintain fitness. This is done through Health and well being lessons, Physical Education lessons and sports activities and sporting competitions. Various sporting clubs are held on a weekly basis.

Various resources are used by the pupils during play times, and school has invested in the purchase of good quality fitness and climbing equipment for all the pupils to use at playtimes.

The gymnastics, dance and movement sessions are held barefooted in the school's hall, whilst activities such as football, netball, rugby, hockey, athletics etc. are held outside. The older pupils receive tuition in swimming in their turn and the aim is that every child is able to swim at least 25m. by the time they move on to secondary education.

Addysg Gorfforol

NODAU'R YSGOL AR GYFER CHWARAEON

Mae pwyslais mawr yn yr ysgol ar annog yr holl disgyblion i ddatblygu ffitrwydd. Rydym yn gwneud hyn trwy gyfrwng y gwersi lechyd a lles, Addysg Gorfforol a Chwaraeon ynghyd â chystadlaethau a thwrnamentau o bob math.

Cynhelir amrywiol glybiau chwaraeon yn wythnosol. Ceir cyflenwad o offer a ddefnyddir gan y disgyblion ar amseroedd chwarae, ac mae'r ysgol wedi buddsoddi'n eang i sicrhau offer dringo a ffitrwydd ar gyfer yr holl ddisgyblion ar gyfer amseroedd chwarae.

Bydd y gwersi gymnasteg, symud a dawns yn digwydd yn neuadd yr ysgol - a hynny yn droednoeth. Bydd gweithgareddau megis sgiliau pêl-droed, pêl-rwyd, rygbi, hoci, athletau a.y.y.b. yn cael eu cyflawni tu allan. Caiff disgyblion hyn gyfle i dderbyn hyfforddiant mewn nofio yn eu tro a'r nod yw sicrhau y bydd bob plentyn yn medru nofio o leiaf 25m erbyn y byddant yn symud ymlaen i addysg uwchradd.

Cyfle Cyfartal

Prif athroniaeth ac amcanion yr ysgol yw bod gonestrwydd, urddas a gwerth pob unigolyn o'r pwysigrwydd mwyaf. Ymdrechir i roi cyfle cyfartal i bob disgybl ac athro/athrawes ar bob adeg heb wahaniaethu ar sail rhyw, crefydd, lliw, iaith nac anabledd.

DISGYBLION SYDD AG ANABLEDDAU

Mae cynllun yr ysgol yn sicrhau mynediad rhwydd i ddisgyblion, rhieni a staff sydd ag anableddau. Gwneir trefniadau arbennig rhwng yr ysgol a'r cartref pan fo disgybl sydd ag anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cychwyn yn yr ysgol. Cysyllter â'r Pennaeth am ragor o fanylion. Mae'r ysgol yn sensitif i anghenion disgyblion sydd ag anableddau ac yn gwneud pob ymdrech i'w cynnwys ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae ystafelloedd pwrpasol ar gael yn yr ysgol i hyrwyddo anghenion disgyblion sydd ag anableddau.

Equal Opportunities

The school's main philosophy and aims are that the honesty, dignity and integrity of every individual are of the utmost importance. We strive to give every pupil and teacher equal opportunities on all occasions without discrimination on the basis of sex, religion, colour, language or disability.

PUPILS WITH DISABILITIES

The school's layout ensures easy access to pupils, parents and staff with disabilities. Special arrangements are made between school and home when a pupil with disabilities or Additional Learning Needs starts at the school. Please contact the Headteacher for more information. The school is sensitive towards the needs of pupils with disabilities and makes every effort to ensure that they are included in all aspects of the schools life and work. We have purposeful rooms at the school to provide for the needs of pupils with disabilities.

Trefniadau iechyd a diogelwch

TREFNIADAU IECHYD A DIOGELWCH

Cymerir pob gofal posibl am ddiogelwch y disgyblion tra byddant yn yr ysgol. Os bydd plentyn yn sâl neu mewn damwain cysylltir â'r rhieni, yna os fydd angen byddwn yn mynd â'r plentyn i Adran Ddamweiniau yn yr Ysbyty. Gallwn roi moddion i blentyn mewn achosion arbennig yn unig – gyda chaniatad ysgrifenedig rhieni.

Ni chaniateir i blentyn adael yr ysgol yn gynnar heb ganiatâd. Os fydd newid yn y modd y bydd plentyn yn mynd adref, gofynnwn i'r rhieni ddweud wrth yr ysgol o flaen llaw am y trefniadau a wnaed.

Mae'r ysgol yn arolygu trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer disgyblion a staff yn gyson. Rhaid i bob ymwelydd ymweld â'r brif fynedfa cyn cael mynediad i'r ysgol. Fe fydd yr ymwelydd yn cael cerdyn adnabod. Os fydd ymwelwyr yn ymddwyn yn anaddas tuag at ddisgybl neu aelod o staff yna byddwn yn gofyn iddynt adael safle'r ysgol ar unwaith a chysylltir â'r heddlu pan fo hynny'n briodol. Mae gan yr ysgol system larwm lladron a fe fyddwn yn gwneud ymarferion tân' yn dymhorol.

Health and safety arrangements


HEALTH AND SAFETY ARRANGEMENTS

Every possible care is taken to ensure children's safety whilst they are at the school. If a child is taken ill, or involved in an accident, the parents are contacted and, if needed, the child will then be taken to the Casualty Department at Hospital. Medicine will be administered to children in special instances and on the receipt of written instructions from the parent.

No child is allowed to leave the school without permission. If there is a change to normal arrangements, the parents are requested to inform the child's class teacher in advance.

The school regularly reviews health and safety arrangements for pupils and staff. Every visitor must visit the main entrance before gaining access to the school. Visitors are given an identification card. If a visitor acts inappropriately towards a pupil or member of staff then they will be asked to leave the school campus immediately and the police informed if needed. The school has a burglar alarm system and fire drills are held termly.

Gwisg ysgol



Cardigan /
Siwmpwr

Gwyrdd tywyll



Crys polo

Coch



Sgert

Du/llwyd



Trowsus

Du/llwyd



Ffrog haf

Coch

Mae'r crysau chwys a pholo ar werth yn siop Forresters yn y dref, neu gellir eu harchebu ar y we ar wefan My Clothing. Rydym am i'r plant fod yn yn falch o'u gwisg ysgol, ac i ddangos balchder o fod yn rhan o Ysgol Gymraeg Glanrafon.

Dillad addysg gorfforol




Crys T
gwyn



Trainers / esgidiau
pel droed



Siorts/
trowsus du



Cardigan /
Siwmpwr ysgol

Gwneir y gweithgareddau mewnol yn droednoeth.

Gofynnwn i chi roi enw eich plentyn ar bob dilledyn. Mae hyn yn hanfodol rhag ofn i'r dillad fynd ar goll.

Gofynnir i'r disgyblion ddod â dillad cynnes ar gyfer y gweithgareddau allanol.

Mae disgyblion blwyddyn 4 i 6 yn cael cyfle i fynd i nofio yn eu tro.

School uniform



Jumper

Dark green



Polo shirt

Red



Skirt

Black/grey



Trousers

Black/grey




Summer
dress

Red

The sweat and polo shirts are available from Forresters sports shop in town, or can be purchased online through My Clothing website. We wish our children to be proud of their school uniform, and in so doing, show pride in being part of Ysgol Gymraeg Glanrafon.

P.E. kit




White
T shirt



Trainers / football
boots



Black
shorts/
joggers



School
Jumper/
Cardigan

Indoor activities are carried out bare-footed.

It is essential that your child's name is on every garment.

The children are asked to wear warm clothing for outdoor activities.

All the pupils year 4 to 6 children have swimming lessons in their turn.

1. Mae disgwyl i bob plentyn ddarllen, dysgu tablau ac ymarfer sillafu gartref. (0 point)
A ddylai'r ysgol baratoi gweithgareddau gwaith cartref ychwanegol i hyn?

Every child is expected to read at home, practice tables and spellings.
Should the school prepare additional homework?

[More Details](#)

● Dylai/Yes	53
● Na Ddylai/No	61
● Weithiau/Sometimes	85



Gwaith cartref

Mae disgwyl i ddisgyblion ddarllen o leiaf 3 gwaith yr wythnos, dysgu eu tablau ac ymarfer sillafu geiriau. Mae amrwyiaeth o weithgareddau ar gael ar wefan yr ysgol. Yn dilyn canlyniadau holiadur rhieni, lle mae mwyafrif y rhieni yn cytuno, nid oes gwaith cartref rheolaidd yn cael ei osod gan yr ysgol. Rydym yn rhoi'r cyfle i'r disgyblion wneud tasgau gwaith cartref yn achlysurol yn ogystal ag ymarfer darllen a thablau. Rydym yn defnyddio SeeSaw ar gyfer rhannu gwaith gyda rhieni.

Rydym yn ymwybodol fod rhieni sydd ddim yn gallu siarad Cymraeg yn poeni am sut y gallant gefnogi eu plant, ond mae ganddym nifer o ffyrdd i helpu:

- ✓ Mae unrhyw waith cartref yn dod yn ddwyieithog,
- ✓ Mae'r athrawon ar gael i helpu,
- ✓ Fe allwn awgrymu apiau cyfieithu gwyd i'ch helpu.
- ✓ Mae cryn dipyn o dasgau gwaith cartref i'w gweld ar wefan yr ysgol

Homework

There is an expectation that all pupils read at least three times per week, learn their times tables and practice spellings. Activities are available from the school website. Following a parental questionnaire where the majority of pupils agreed that there was no need to prepare additional tasks for homework.

The pupils are given an opportunity to do occasional tasks for homework. We use SeeSaw to share work with parents

We know that some parents who don't speak Welsh are concerned about being to help their

child with homework but we can empower you:

- ✓ Any homework tasks comes bilingually,
- ✓ Teachers are on hand to support,
- ✓ We can point you in the direction of good translation apps to help.
- ✓ There are quite a lot of homework tasks to be found on the school website

Presenoldeb

Disgwylir i'r plant fynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon.

Os y gwelir fod problem gyda phresenoldeb fe fyddwn yn ceisio gweithio gyda'r teulu i gefnogi gyda'r gweithiwr cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Nodir y pwysigrwydd o roi gwybodaeth swyddogol ynglyn ag unrhyw absenoldeb gan eich plentyn cyn 9:30yb. Bydd yr ysgol yn cysylltu'n uniongyrchol â'r cartref, ac ystyrir unrhyw absenoldeb nad esbonnir fel un di-awdurdod.

SALWCH

Os nad yw eich plentyn yn teimlo'n dda yn y bore cyn amser dod i'r ysgol, gofynnwn yn garedig i chi beidio a'i anfon ef/hi i'r ysgol y diwrnod hwnnw er mwyn osgoi unrhyw anesmwythyd i'r plentyn ac hefyd osgoi ymledu'r germau i'r disgyblion eraill. Gofynnwn yn garedig a allwch roi gwybod i'r ysgol am eu habsenoldeb cyn 9:30yb. A allwch roi gwybod i ni ar unwaith os oes unrhyw newidiadau i'ch rhifau ffôn?

MEDDYGINIAETH A THABLEDI

Nid ydym yn annog neb i ddod â thabledi a meddyginiaeth i'r ysgol er diogelwch i bawb. Gwerthfawrogem i'r rhieni eu hunain eu rhoddi i'r plant gartref neu ddod i'r ysgol i'w weinyddu. Mewn sefyllfaedd unigryw yn unig, dylai rhieni gysylltu â'r pennaeth i drafod yr amgylchiadau ac i lenwi ffurflen briodol i arwyddo i roi caniatad ysgrifenedig i weini'r feddyginiaeth, os nad oes dewis arall.

Attendance

The pupils are expected to attend school regularly and punctually.

If this is found to be lacking the school will work with the family to support with the local educational social worker designated to this school. Please let us know if your child is going to be absent before 9:30am. School will contact the home, and any uninformed absence is regarded as an unauthorised one.

ILLNESS

It is hoped that every child will enjoy good health during their time at the school. If at any time your child feels unwell in the morning before school time, you are kindly asked not to send him/her to school on that day in order to avoid any discomfort for the child and also to avoid spreading the germs to other pupils. We kindly ask if you can inform the school of their absence before 9:30am. Can you please let us know immediately if there are any changes to your phone numbers.

MEDICINES AND TABLETS

We do not encourage medicines and tablets to be brought into school for safety reasons. It would be preferable for parents to administer the prescribed medicine personally at home or in school. In exceptional cases only, parents should contact the headteacher in order to discuss the situation and to fill in a form to give written permission for the administering of the medication, if there is no other option.

Diogelwch ac Amddiffyn Plant

Cydlynwyr Amddiffyn Plant yr ysgol yw y pennaeth a'r dirprwy. Os oes mater diogelwch sy'n peri gofid i'r ysgol bydd gweithdrefnau Amddiffyn Plant y ddarpariaeth yn cael eu gweithredu yn unol â'r polisi cytunedig.

Cynhelir ymarferion tân yn dymhorol. Ystyrir diogelwch y plant a'r oedolion fel un o brif flaenoriaethau'r ysgol.

Cynrychiolydd Diogelwch Plant ar Gorff Llywodraethol yr ysgol yw Gareth Lloyd

GOFAL BUGEILIOL A DISGYBLAETH

Caiff y disgyblion eu cyflwyno ar unwaith i'r egwyddorion hanfodol y mae disgwyl iddynt eu cadw sef y canlynol:-

✓ Bod yn dyner a charedig

✓ Cerdded heb ruthro

✓ Gwranddo

✓ Gweithio'n galed

✓ Bod yn onest

✓ Dangos parch

GOFAL BUGEILIOL A DISGYBLAETH

Credwn mai'r ffordd orau i feithrin ymddygiad da yw trwy greu awyrgylch hapus lle mae plant yn abl i wneud eu gorau oddi mewn a thu allan i'r dosbarth a lle maent yn cael eu hannog i gyrraedd eu potensial.

Gwobrwyir pob agwedd ac ymddygiad da â phwyntiau dojos gyda'r bwriad bod pob disgybl unigol yn ennill cyn gymaint o bwyntiau dojo ag sydd bosib er mwyn eu galluogi i dderbyn gwobrau ychwanegol ar wahanol adegau.

Security and Child Protection

The school's Child Protection coordinator is the headteacher and the deputy. If any safety matters cause us concern, the school's Child Protection procedures will be followed according to the agreed policy.

Regular fire drills are held. The children's and adults' safety is regarded as one of the school's main priorities.

The Governing Body's Child Protection representative is Gareth Lloyd

CARE AND SCHOOL DISCIPLINE

The pupils are introduced to the essential principles that they are expected to adhere to, which are:

✓ Be kind and gentle

✓ Walk without rushing

✓ Listen

✓ Work hard

✓ Be honest

✓ Show respect

DISCIPLINE POLICY

We believe that the best way to nurture good behaviour is in a happy environment where children are able to give of their best inside and outside the classroom and where they are encouraged to reach their full potential.

Every pupils' aspect of good behaviour and attitude are rewarded with dojo points with the intention that every pupil gains as many dojo points as possible which enable them to receive further rewards at various times.

Cinio ysgol

Darperir cinio yn yr ysgol. Bwydydd ffres yn unig a ddarperir. Rhowch wybod yn ysgrifenedig i'r gogyddes/ysgol os yw eich plentyn gan alergedd neu anoddefiad.

Mae rhaid archebu cinio o flaen llaw ar y system School Gateway. Ar ol Pasg 2024 bydd pob disgybl oni bai am ddisgyblion meithrin yn cael cael cinio am ddim yn yr ysgol os ydynt eisiau. Pris cinio dosbarth meithrin yw £2.80 y dydd.

Mae'n bosibl i'ch plentyn ddod â brechdanau a diod yn lle cael cinio ysgol. Gofynnir i chi beidio rhoi pcedi o gnau ym mhecyn bwyd unrhyw blentyn sydd yn dod a chinio gydag o/hi gan fod nifer o ddisgyblion a staff gan alergerdd. Fe fydd disgwyl i bob plentyn sydd yn cael brechdanau i fynd a'u sbwriel gartref gyda nhw.

Gallwch hawlio cinio ysgol rhad i'ch plentyn.

Bwydydd iach

Mae snapyn iach yn cael ei baratoi am gost o £1.50 yr wythnos ar gyfer disgyblion Meithrin i flwyddyn 3 i'w dalu ar app yr ysgol.

Dim ond ffrwythau ffres neu lysiau amrwd y mae pob disgybl i'w bwyta yn ystod amser egwyl y bore. Gwerthfawrogir eich cefnogaeth i'n hymgyrch i hybu'r ysgol i fod yn ysgol iach. Rydym yn gofyn i chi baratoi snapyn iach i'ch plentyn ar gyfer amser chwarae.

Caniateir i'r plant ddod â photeli (dim un wydr) o ddŵr i'r dosbarth i'w hyfed yn ôl y gofyn yn ystod y dydd. Gofynnir iddynt fynd â'r poteli gartref yn y pnawn a'u dychwelyd yn y bore. Caiff y plant ddod â diod arall ar gyfer yr amseroedd egwyl. Mae tri peiriant dŵr pwrpasol wedi'u lleoli mewn manau cyfleus yn yr ysgol.

School dinner

Dinners are cooked in school. Fresh food only is served. Please inform the cook/school in writing if your child has any allergies or intolerances.

You are asked to pre-order dinners on the internet using the School Gateway system. Everyone needs to register in order to use this system. After Easter 2024 every child apart from nursery pupils can have a free school meal if wanted. The cost of school dinners is £2.80 per day for nursery pupils.

Your child may bring sandwiches and a drink. All pupils who bring sandwiches are to take their rubbish home. You are asked not to include any packs of nuts in packed lunches please as some pupils and staff have nut allergies.

You may be entitled to free school meals.

Healthy foods

A healthy snack is provided for pupils from Nursery to Year 3 at a cost of £1.50 to be paid on the school app.

It is only fresh fruit or raw vegetables that pupils are to eat during the morning break time. Your support in promoting the school as a healthy eating school will be much appreciated. We ask that you provide healthy snacks for play-times.

The children need to bring a bottle (not glass) of water with them into class to drink as and when required during the day. They are asked to take the bottle home in the afternoon and return it in the morning.

The children may bring another drink with them for the playtimes.

Three water machines are conveniently located in the school.

Clwb ben bore

Mae Clwb Ben Bore ar gael i blant o'r dosbarth Meithrin i flwyddyn 6 o 7.30yb i 8.45yb bob bore.

Pris y sesiwn yw £5 y tro. Rhaid archebu lle a thalu trwy School Gateway.

Mrs Rhian Gardner sydd yn gyfrifol am reded y clwb ac mae Mrs Tracey Morris, Mrs Lesley Mather a Ms Michelle Taylor yn ei chefnogi.

Yn ogystal â chael cyfle i gymdeithasu a gwneud amrywiol weithgareddau cyn i'r ysgol ddechrau, caiff y plant luniaeth ysgafn bob bore.

Mae **Clwb Brecwast am ddim yn rhedeg o 8.15yb tan 8.45yb.** Rhaid trefnu lle trwy School Gateway.

Morning Club

A Morning Club for pupils from Nursery to Year 6 is available from 7.30 am to 8.45 am every morning.

The cost of each session is £5. You must reserve a space and pay through School Gateway.

The Clwb is run by Mrs Rhian Gardner and she is supported by Mrs Tracey Morris, Mrs Lesley Mather and Ms Michelle Taylor.

The children have an opportunity to socialise, do various activities and have light refreshments before the start of each school day.

Free Breakfast Club starts at 8.15am until 8.45am. Pupils must register for a space through School Gateway.



AMSER

Mae'r Clwb ar ôl Ysgol ar gael rhwng **3yh tan 5.45yh** i blant o'r Dosbarth Meithrin i fyny i Flwyddyn 6.

Rhif ffôn y Clwb yw

 **07722 039330**



PRIS

Codir tâl o **£6 am yr awr** gyntaf ac cost ychwanegol am bob hanner awr arall. Rhaid talu trwy School Gateway o flaen llaw. Mae hi'n angenrheidiol i archebu lle i'ch plentyn o flaen llaw. Dim ond lle i 44 sydd yn y Cwb



GOFALWYR

Ms Michelle Taylor a Miss Rachel Taylor sy'n gyfrifol am y Clwb ar ôl ysgol .



YMDDYGIAD

Disgwyliwn i bob plentyn ymddwyn mewn modd sy'n dderbyniol. Byddwn yn gwrthod gofalu am blentyn sy'n parhau i ymddwyn mewn modd annerbyniol.

Clwb ar ôl ysgol



CASGLU EICH PLENTYN

Rhaid hysbysu'r Clwb os oes rhywun gwahanol i'r gofalwyr yn dod i gasglu eich plentyn. Cyn i'ch plentyn adael y Clwb bydd angen i'r rhieni/gwarchodwyr lofnodi llyfr priodol.

Hanner awr wedi pump (5.45 yh) yw'r hwyraf y gellir casglu eich plentyn a chodir dirwy sylweddol am unrhyw gyfnod fesul chwarter awr dros hynny, er mwyn talu cyflog dros oriau i'r staff.



TREFN CŴYNO

Dylid trafod unrhyw gŵyn gyda staff y Clwb ar ôl ysgol. Pe dymunid trafod ymhellach cysyllter â'r ysgol neu fynd ymlaen wedyn at Gadeirydd y Pwyllgor Llywio neu ARGC.

 **01352 707900**



TIME

The after School Club is available from 3.00 and 5.45 p.m for children from Nursery to Year 6.

The Club's phone number is

 **07722 039330**



PRICE

The **first hour costs £6** and an additional charge for every half hour thereafter.

Payment must be made beforehand through School Gateway. You can also book your child into Club through School Gateway.

There's only space for 44 in the Club



STAFF

Ms Michelle Taylor and Miss Rachel Taylor are in charge of the Club.



BEHAVIOUR

Every child is expected to behave in an acceptable manner. We reserve the right to refuse to care for a child who continues behave inappropriately.

After school club



COLLECTING YOUR CHILD

The Club should be informed if someone different will collect your child. Your child will have to be signed out of care before leaving.

You should collect your child by half past five (5.45 pm) at the latest otherwise a substantial fine will have to be paid for every quarter an hour thereafter to pay for the supervisors' extra hours.



COMPLAINTS PROCEDURE

Any complaint should be discussed with the staff. If the complaint is to be taken further, the school should be contacted or the Chairperson of the Club's steering committee or CIW

 **01352 707900**

"Rydw i'n mwynhau darllen yn y Gornel Ddarllen."



HANA

BL.4



ANIA, LIA AC OSIAN

BL.3

"Mae pawb yn ffrindiau yn Ysgol Glanrafon ac rydw i wrth fy modd yn yr ysgol."



MOLI

BL.5

"Mae Ysgol Glanrafon yn arbennig oherwydd mae pawb mor garedig"

Beth mae'r rhieni/gofalwyr yn ei ddweud...

"Ysgol sydd yn ddifyr ac yn hwyl!"

"Mae Glanrafon yn meithrin awyrgylch ofalgar ar gyfer addysg a lles. Mae'r staff yn mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau ac mae'r Pennaeth mor hawdd mynd ati a bob amser yn weladwy."

"Mae fy mhiant yn hynod o hapus yng Nglanrafon. Mae lles y plant yn flaenoriaeth, yn ogystal â dathlu hunaniaeth Gymreig. Mae'r ysgol yn groesawgar tu hwnt ac yn cynnig ystod eang o brofiadau i blant eu mwynhau trwy gydol eu hamser yng Nglanrafon."

" Ysgol Glanrafon provides a caring and friendly environment for my children, who enjoy attending every day. They love learning and taking advantage of the opportunities and experiences available to them. It's an absolute pleasure to see them happy."

"Teimlad teuluol croesawgar a chynhwysol i'r holl ddisgyblion a'r rhieni."

"A minnau yn riant di-Gymraeg, rwyf wedi cael cefnogaeth wych drwy gydol addysg fy merch. Bydd hi'n symud i Faes Garmon yn llawn hyder diolch i Glanrafon. Diolch i bawb am y gefnogaeth."

"Byddwn i'n argymhell Ysgol Glanrafon heb os. Dwi wastad wedi teimlo'n drist a dwi'n sicr wedi colli cyfleoedd gan mod i'n methu siarad Cymraeg fy hun. Mae'n bleser a braint clywed fy mhiant yn rhugl yn yr iaith ac yn ffynnu. Mae Glanrafon yn lle hapus iawn ac mae 'na deimlad cymunedol hyfryd i'r ysgol. "

"A ninnau newydd gyrraedd Ysgol Glanrafon mae fy mhientyn wrth ei bodd, mae symud ysgolion yn anodd ond diolch i'r staff a'r disgyblion mae wedi setlo'n dda... Diolch i bawb 😊"

"Ysgol ardderchog, mae fy mhientyn yn edrych ymlaen at fynd cymaint mae'n credu bod gwyliau'r haf yn rhy hir!"

"Dwi'n ddiolchgar i staff Glanrafon am greu awyrgylch gartrefol, hapus, Gymreig i fy mhientyn ddysgu a chymdeithasu.."

"Awyrgylch gyfeillgar a hapus. Hynod o lwcus i gael tîm o staff sydd yn hybu ein plant i fanteisio ar y cyfleoedd a'r gwahanol brofiadau sydd ar gael."

"Mae'r Ysgol yn cynnig addysg a gofal o'r radd flaenaf. Caiff y plant gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau, gan dderbyn lluo o brofiadau, sy'n werthfawr iawn ar gyfer eu datblygiad addysgiadol a moesol."

What the parents/carers say...

"A school that is entertaining and fun!"

"Glanrafon is a nurturing environment for both education and wellbeing. Staff go above and beyond and the Headteacher is so approachable and always visible."

"An excellent school, my child looks forward to going so much he thinks the summer holidays are too long!"

"I am so thankful to the staff at Glanrafon for creating a warm, happy and Welsh environment for my child to learn and socialise."

"My children are exceedingly happy at Glanrafon. The wellbeing of the children is of primary importance, together with celebrating Welsh heritage. The school is very welcoming and offers a fantastic range of experiences for children to enjoy throughout their time at Glanrafon."

"I'd recommend Ysgol Glanrafon in a heartbeat. I have always felt sad and I have definitely missed opportunities not being able to speak Welsh myself, it's a joy and a privilege to hear my children fluent in the language and thriving. Welsh aside, Glanrafon is a very happy place and there is a lovely community feel to the school."

"A friendly and happy atmosphere. Extremely lucky to have a team of staff who promote our children to take advantage of the different opportunities and experiences available."

"Ysgol Glanrafon provides a caring and friendly environment for my children, who enjoy attending every day. They love learning and taking advantage of the opportunities and experiences available to them. It's an absolute pleasure to see them happy."

"Having only just arrived at Ysgol Glanrafon, my child loves it, moving schools is hard but thanks to the staff and pupils he has settled in well... Thank you to everyone :-)"

"A welcoming and inclusive family feeling for all pupils and parents."

"Being an English speaking parent. I have had fantastic support all through my daughters education. She will be moving to Maes Garmon full of confidence thanks to Glanrafon. Thank you for all the support."

"The school offers a high standard of education. Children are allowed to participate in a wide variety of activities, and receive a multitude of experiences, which are valuable for their educational and moral development."



Diolch
Thank you

